**Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES**

**ADRODDIAD GWEINIDOG Y CYNULLIAD I'R PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES AR 14 TACHWEDD 2001**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch y materion penodol yr oedd yn dymuno cael ei hysbysu amdanynt ers fy adroddiad blaenorol ar 17 Hydref. Mae **Atodiad A** yn nodi fy mhrif ymrwymiadau ers yr adroddiad diwethaf.

1. **Y Cyngor Partneriaeth Gwirfoddol**

Ar 15 Hydref cefais fy ail gyfarfod, dan y Cynllun Sector Gwirfoddol, gyda phartneriaid sector gwirfoddol mewn addysg. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf rhyngom ym mis Mawrth. Yn ystod y cyfarfod ym mis Hydref, gwnaethom adrodd am y cynnydd a wnaed ynghylch y materion a nodwyd yn y cyfarfod cyntaf. Hefyd cawsom drafodaeth fanwl ynghylch:

- cynrychiolaeth ar Fwrdd a Phwyllgorau Rhanbarthol ELWa a'r Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant (CCETs);
- y Gynhadledd ELWa/Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar 6 Gorffennaf;
- Ymestyn yr Hawl (Extending Entitlement);
- y trefniadau i'w sefydlu rhwng Gyrfa Cymru a'r sector gwirfoddol, a'r
- Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd.

Mae'r cyfarfodydd hyn yn werthfawr iawn i mi. Mae'n gyfle ardderchog i mi gael mwy o ddealltwriaeth am y pryderon sy'n wynebu'r sector gwirfoddol ac i ystyried datrysiadau. Rwyf wedi defnyddio'r cyfarfodydd hyn i ofyn am awgrymiadau ynghylch mentrau polisi ac hefyd yn elwa o wybodaeth a phrofiad eang y partneriaid yn y sector gwirfoddol.

1. **Cyflog darlithwyr mewn Colegau Addysg Bellach**

   Ers 1993 mae corff llywodraethu pob colleg Addysg Bellach yng Nghymru, fel yn Lloegr, yn gyflogwr. Maent yn cael eu cynrychioli gan Gymdeithas Colegau Cymru a Lloegr (AoC) sydd, ynghyd a'r 7 undeb llafur AB, yn ffurfio'r Cyd-Fforwm Cenedlaethol (National Joint Forum (NJF)). Mae'r sefydliad hwn yn negodi argymhelliad cynnydd cyflog blynyddol y mae'r Gymdeithas Colegau yn ei gyflwyno gerbron colegau unigol, fel y cyflogwr, sy'n dewis ei weithredu ai peidio. Nid oes gan weinidogion y llywodraeth yng Nghymru na Lloegr unrhyw ran yn y trefniadau hyn. Ar gyfer 2001-02, yr argymhelliad cenedlaethol yw cynnydd cyflog o 3.7 y cant.

Fforwm, Cymdeithas y colegau AB yng Nghymru, yw’r sefydliad rheolaeth/cyflogwr lleol. Mae aelodau Fforwm hefyd yn aelodau o’r AoC. Nid oes gan Fforwm na’r undebau AB yng Nghymru unrhyw hawliau negodi cenedlaethol o ran cyflog, er bod y bargeinio lleol rhwng cyflogwyr a’r undebau llafur yn gallu arwain at ddyfarniadau cyflog yr un fath, yn uwch neu’n is nag argymhelliad NJC. Eleni cynghorodd Fforwm ei aelodau i ddefnyddio 4.25 y can fel ffigwr sylfaen wrth ddod i gytundeb ar gynnydd cyflog i’r staff.

Ar hyn o bryd mae 96 y cant (23 o’r 24) o’r colegau yng Nghymru wedi cytuno i fodloni neu fynd yn uwch na’r argymhelliad cenedlaethol – yr amrediad yw 3.7 i 6 y cant, gydag 18 coleg (78 y cant) yn bodloni neu’n gwella ar gyngor Fforwm.

Mae cyllideb y Cyngor Cenedlaethol – ELWa ar gyfer 2001-02 yn rhoi digon o ariannu agregol yn y sectorau addysg a hyfforddiant ôl-16 i gynorthwyo i gwrdd â phwysau cyflogau mewn colegau AB ar draws y bwrdd. Yn ychwanegol, darparodd y Cynulliad £3.17m ychwanegol ar gyfer cyflogau i'r colegau ym mis Mai i adlewyrchu’r arian ychwanegol a oedd yn cael ei ddarparu yn Lloegr, y tu allan i’r dyfarniad cyflog. Ar yr adeg, dywedais, "Gall y Cynulliad ddisgwyl i bob sefydliad benderfynu ar ddyfarniad cyflog i’w staff, drwy drafod a negodi, sy’n deg, yn gyfiawn ac yn fforddiadwy".

Rwyf wedi cael cyfarfodydd yn ystod yr ychydig ddyddiau diwethaf gyda’r undebau llafur a Fforwm. Yn sgil y sylwadau a wnaed, byddaf yn gofyn i’r Cyngor Cenedlaethol – ELWa roi cyngor i mi ar ffyrdd o wella safonau a pherfformiad ymhlith darparwyr ôl-16, yn enwedig o ran polisi adnoddau dynol ac arferion personél.

2. **Profion i blant 7 oed**

Cyhoeddais ar ddydd Iau, 1 Tachwedd, yn dilyn derbyn cefnogaeth syfrdanol i’r cynnig, y byddai’r profion cenedlaethol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 yn cael eu dileu ar unwaith. Ni fydd plant 7 oed yng Nghymru yn gwneud y profion yn 2002. Bydd hyn yn lleihau’r baich gweinyddol ar athrawon cynradd ar unwaith, ac yn rhoi mwy o amser ar gyfer gweithgareddau eraill yn yr ystafell ddosbarth. Roedd yn bwysig gwneud penderfyniad a chyhoeddiad buan i gael gwared ar unrhyw ddryswch yn yr ysgolion, a bellach gall athrawon gynllunio gweithgareddau ar gyfer gweddill y flwyddyn gan wybod na fydd y profion a’r tasgau yn rhai gorfodol. Ni fydd y profion a’r tasgau a ddatblygwyd gan ACCAC yn cael eu gwastraffu. Bydd y deunydd yn cael ei ddosbarthu i ysgolion at ddefnydd dewisol i gefnogi gweithgareddau ystafell ddosbarth ac asesiadau athrawon. Ymddengys mai dyma’r dull mwyaf synhwyrol o’i ddefnyddio y flwyddyn nesaf ac mae’n cyd-fynd â barn y mwyafrif o’r rheiny a gyfrannodd i’r ymgynghoriad.

3. **Cyfrifon Dysgu Unigol**

Mae’n bosibl fod y Pwyllgor yn ymwybodol o’r problemau difrifol a gafwyd gyda’r cynllun

Cyfrif Dysgu Unigol yn Lloegr, a arweiniodd at benderfyniad y Gweinidog Gwladol dros Addysg a Sgiliau i roi'r gorau i weithredu Cyfrifon Dysgu Unigol yn Lloegr. Mae'r penderfyniad yn dilyn pryderon ynghylch achlysuron o gam-weithredu gan ddarparwyr hyfforddiant a galw uwch na'r disgwyl gyda'r canlyniad y rhagwelir gorwariant sylweddol.

Mae fy swyddogion i a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill wedi bod yn monitro'r sefyllfa'n agos ac rwy'n fodlon ein bod wedi gwneud y penderfyniad cywir i barhau â'r cynllun Cyfrif Dysgu Unigol yng Nghymru. Mae gwahaniaethau pwysig rhwng y ffordd mae Cyfrifon Dysgu Unigol yn gweithredu yng Nghymru o gymharu â Lloegr, a'r un mwyaf allweddol o'r rheiny oedd ein penderfyniad i ddyfarnu'r contract i gyflenwi'r cynllun i'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa. Mae'r ffaith na chafwyd unrhyw adroddiadau am achosion o dwyll a bod allbynnau a chostau'r cynllun yn cadw at eu targedau, yn dystiolaeth o drefniadau rheolaeth cadarn y Cyngor Cenedlaethol – ELWa.

Rydym wedi gofyn am sicrhad gan y Cyngor Cenedlaethol – ELWa y bydd yn cynyddu'r trefniadau archwiliad ac yn atgyfnerthu eu dulliau rheoli ansawdd fel na fydd y problemau a welwyd yn Lloegr yn digwydd yma. I'r perwyl hyn, rwyf wedi gofyn i'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa i ohirio cofrestru darparwyr dysgu newydd am gyfnod dros dro gan fy mod yn arbennig o awyddus fod y rhai sydd wedi bod yn gweithredu y tu allan i ethos y cynllun Cyfrifon Dysgu Unigol yn Lloegr ddim yn cael rhwydd hynt i droi eu sylw at Gymru fel ffynhonnell arall o incwm rhwydd, drwy gyflwyno eu harferion llwgr yma.

Yn gyffredinol, mae Cyfrifon Dysgu Unigol wedi bod yn llwyddiant ysgubol yng Nghymru gyda dros 60,000 o bobl yn aelodau o'r cynllun ar hyn o bryd, a'r gwerthusiad cynnar yn nodi fod 92% yn gadarnhaol iawn ynghylch yr hyfforddiant a gawsant gyda chefnogaeth Cyfrif Dysgu Unigol.

Gwnaf barhau i hysbysu'r Pwyllgor am y sefyllfa ddiweddaraf.

4. **Grantiau hyfforddiant athrawon dechreuol**

Ar 1 Tachwedd gwnes gadarnhau y byddai'r holl hyfforddedigion cymwys sy'n dilyn cyrsiau hyfforddiant athrawon dechreuol ôl-raddedig yng Nghymru, gan ddechrau ym mis Medi 2002, yn derbyn grant hyfforddiant gwerth £6,000. Mae grant hyfforddiant o £6,000 ar gael i'r holl fyfyrwyr cymwys sy'n dechrau ar eu cyrsiau hyfforddiant athrawon ôl-raddedig sy'n arwain at Statws Athro/awes Cymwysedig yn 2001-02. Bydd hyfforddedigion cymwys sy'n ennill y cymhwyster ac yn mynd ymlaen i addysgu mathemateg, gwyddoniaeth, technoleg gwybodaeth, technoleg dylunio, ieithoedd tramor moder neu Gymraeg yn y sector uwchradd â'r hawl i gael cymhelliant addysgu o £4,000 yn dilyn cyflawni ei blwyddyn gyntaf o addysgu mewn swyddi cymwys yn llwyddiannus.

Ym mis Tachwedd y llynedd cyhoeddais y byddai’r taliadau cymhelliant o £6,000 ar gael yn ystod yr hyfforddiant i hyfforddedigion ôl-raddedig sector uwchradd hyd at ac yn cynnwys y flwyddyn academaidd 2003-04 o leiaf. Cynigiwyd y taliadau cymhelliant i hyfforddedigion ôl-raddedig sector cynradd ym mlwyddyn academaidd 2001-02 yn unig i ddechrau. Dyma oedd y sefyllfa yn Lloegr hefyd.

Mae’r cyhoeddiad hwn yn ymestyn y taliadau cymhelliant £6,000 i hyfforddedigion ôl-raddedig cynradd am flwyddyn academaidd arall yn unol â’r Cytundeb Partneriaeth. Bydd yn ein cynorthwyo i ddenu’r myfyrwyr gorau, mwyaf ymroddedig, i Gymru a bydd yn galluogi darparwyr hyfforddiant athrawon yng Nghymru i barhau i gystadlu’n effeithiol am yr ymgeiswyr mwyaf dawnus.

5. Math.Cymru.

Roedd cynhadledd diwedd y flwyddyn ar gyfer 2000 yn nodi agenda uchelgeisiol ar gyfer rhagor o weithredu i godi safonau a hybu mathemateg i bobl ifanc. Er mwyn ymdrin â hyn rwyf wedi cytuno y dylid gwahodd Techniquest i barhau eu rôl cydlynu canolog a ddechreuodd gyda Maths2000. Yn benodol, bydd Techniquest yn gweithio gydag awdurdodau addysg lleol ac ysgolion i hybu mathemateg drwy gyfres o fentrau a digwyddiadau lleol a chenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys cefnogaeth i wythnos fathemateg genedlaethol a datblygu deunyddiau a gweithgareddau mathemateg i’w defnyddio â phobl ifanc. Rhoir sylw hefyd i ddarparu cefnogaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol parhau athrawon mathemateg.

Bydd llawer o’r gwaith yma’n cael ei arwain gan gydlynydd cenedlaethol i’w benodi gan Techniquest. Hysbysebwyd y swydd eisoes a disgwylir gwneud penodiad erbyn diwedd mis Tachwedd. Bydd y cydlynydd yn gweithio i gr•p llywio a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o ACCAC, Estyn, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ac ymgynghorwyr mathemateg yr awdurdodau lleol.

7. **Blwyddyn Gwyddoniaeth Cymru**

Gwnes gynorthwyo i lansio’r Blwyddyn Gwyddoniaeth Cymru ym mis Medi lle bu mwy na 200 o blant ysgol yn cymryd rhan mewn digwyddiadau fel y ‘Naid Enfawr’ a’r ‘Waedd Uchel’ – arbrofion wedi’u dylunio y gall gwyddoniaeth fod yn hwyl ac y gall pawb gymryd rhan. Roedd yn ffordd ardderchog o ddangos effaith bositif gwyddoniaeth ac mae’n enghraifft o sut y gallwn gynorthwyo i ennyn diddordeb mwy o bobl ifanc i ddilyn gyrfa ym myd gwyddoniaeth.

Mae Techniquest yn gyfrifol am reoli Blwyddyn Gwyddoniaeth Cymru ar ran y Cynulliad ac yn ddiweddar penodwyd Sue Cavell ganddynt fel Cydlynydd Cenedlaethol. Bydd y cydlynydd yn gweithio’n agos â Gr•p Llywio Blwyddyn Gwyddoniaeth Cymru sy’n cynnwys cynrychiolwyr o’r sefydliadau allweddol fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Estyn, ELWa, y Gwasanaeth Ymgynghorol Gwyddoniaeth a’r Gymdeithas Addysg Gwyddoniaeth. Mae Gr•p Cyfathrebu’n

cael eu ffurfio hefyd o blith nifer o fudiadau â diddordeb i gynorthwyo i rannu gwybodaeth a lledaenu newyddion am y Flwyddyn Gwyddoniaeth. Bydd y Cydlynydd yn casglu ynghyd fanylion am y nifer fawr o ddigwyddiadau, prosiectau a gweithgareddau gwyddonol sy'n digwydd eisoes ledled Cymru mewn calendr cynhwysfawr a bydd eu hyrwyddo o dan enw Blwyddyn Gwyddoniaeth Cymru, gan godi proffil bob un ac ychwanegu at effaith gyffredinol y Blwyddyn Gwyddoniaeth Cymru.

Yr wythnos diwethaf derbyniodd yr holl ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru ficrosgôp cyfrifiadur Intel am ddim – ariannwyd hyn gan y Cynulliad.

Ceir arweiniad a ffurflenni cais er mwyn i sefydliadau wneud cais am grant i ariannu prosiectau gwyddoniaeth ar wefan Blwyddyn Gwyddoniaeth Cymru o ddydd Llun ymlaen: http://www.walesscienceyear.org.uk/. Estynnir gwahoddiad i ysgolion uwchradd ac AAA wneud cais am grantiau prosiect Blwyddyn Gwyddoniaeth Cymru o hyd at £750 yr un, a all gael ei roi tuag at ymweliadau neu unrhyw fenter wyddonol berthnasol. Anogir ysgolion cynradd i gymryd rhan mewn prosiectau drwy gyfuno gyda'u hysgolion uwchradd lleol i gynnal prosiectau. Bydd sefydliadau eraill a ariennir yn gyhoeddus, yn cynnwys sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach, yn cael gwneud cais am arian o hyd at £5,000. Sefydlwyd is-gr•p prosiect i ymdrin â cheisiadau oddi wrth sefydliadau a bydd yn dechrau asesu'r ceisiadau ym mis Rhagfyr.

Darparwyd copi am ddim o CD-Rom y Flwyddyn Gwyddoniaeth gyntaf, yn dwyn y teitl "Who am I?", i'r holl ysgolion uwchradd. Cynhyrchwyd y CD-Rom gan y Gymdeithas Addysg Gwyddoniaeth a bydd nifer o rai eraill yn rhan o'r un gyfres yn ystod y flwyddyn.

8. Ddydd Llun cyhoeddwyd manylion y canlyniadau ysgolion uwchradd gorau erioed yng Nghymru, gyda hanner y myfyrwyr yn llwyddo i gael 5 TGAU neu fwyaf ar radd C neu uwch neu gymhwyster cyfatebol. Hoffwn longyfarch y disgyblion a'r athrawon am berfformiad gwych unwaith eto. Ceir rhagor o fanylion yn *SDR55/2001- GCSE/GNVQ and GCE A, AS and Advanced GNVQ Results in Wales 2000/01* ac yn y datganiad i'r wasg:

http://www.wales.gov.uk/newsite.dbs?37E752F2000942E000000A2E00000000+current+3BEF9A120009C7BB0000684600000000